CLD YW08

# Ymgysylltu â phobl ifanc a'u galluogi i ddefnyddio'r cyfryngau digidol yn eu bywydau bob dydd

## Trosolwg

Mae pwysigrwydd deall y byd digidol y mae pobl ifanc yn byw ynddo, a chael yr hyder i helpu pobl ifanc i lywio a chael eu galluogi mewn agweddau ar-lein a thechnolegol eu bywydau, yn hanfodol ar gyfer gwaith ieuenctid mewn oes ddigidol.

Nid yw'n hanfodol i bob gweithiwr ieuenctid ddangos lefelau uchel o arbenigedd technegol, ond mae'n bwysig bod gweithwyr ieuenctid yn gwerthfawrogi'r rôl y mae digideiddio a'r rhyngrwyd yn ei chwarae ym mywydau pobl ifanc ac yn gallu ymgysylltu â nhw.

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r sgiliau, dulliau a'r mathau o wybodaeth sydd eu hangen ar weithwyr ieuenctid i ddatblygu eu gallu i gefnogi pobl ifanc i fod yn fwy ymwybodol o'u perthnasoedd a'u hymddygiad ar-lein, meddwl yn feirniadol am y cyfryngau a'r cynhyrchion maen nhw'n eu defnyddio ar-lein, creu cynnwys, defnyddio platfformau ar-lein i rannu eu lleisiau, amddiffyn eu hawliau a dylanwadu ar gymdeithas.

Mae'r safon hon ar gyfer pob ymarferydd gwaith ieuenctid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ymchwilio i gyfleoedd posibl i gydweithio ag asiantaethau eraill a gwella ymarfer
2. datblygu gweithgareddau ymgysylltu, eu rhoi ar waith, myfyrio arnynt a'u hailddylunio ar gyfer unigolion a grwpiau mewn perthynas â defnyddio cyfryngau digidol a thechnoleg
3. cynllunio gwaith ieuenctid digidol ochr yn ochr ac yn unol ag anghenion pobl ifanc
4. asesu lefel llythrennedd digidol pob person ifanc ac addasu gweithgareddau gwaith ieuenctid digidol yn unol â hynny
5. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwaith ieuenctid digidol a'u lliniaru drwy gymhwyso camau priodol
6. cynorthwyo pobl ifanc i ddefnyddio'r cyfryngau digidol i hyrwyddo eu syniadau a'u hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwaith ieuenctid a chael eu barn arnynt
7. herio pobl ifanc i feddwl yn feirniadol am gynnwys a gwasanaethau digidol
8. cynorthwyo pobl ifanc i wneud dewisiadau gwybodus am yr offer digidol priodol i ryngweithio, cydweithio a rhannu â grwpiau targed gwahanol
9. helpu pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am sut maent am greu presenoldeb ar-lein, sut maent am amddiffyn eu gwybodaeth, â phwy maent am rannu eu cynnwys a sut i reoli hyn drwy ddefnyddio gosodiadau preifatrwydd a chyfrineiriau cryf.
10. helpu pobl ifanc i benderfynu a ddylent dderbyn telerau ac amodau gwasanaethau digidol
11. helpu pobl ifanc i ddelio â phroblemau y gallent eu hwynebu mewn lleoliadau digidol
12. rhoi cyfleoedd i bobl ifanc archwilio codio neu greu cynnwys digidol
13. sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol priodol mewn perthnasoedd ar-lein â phobl ifanc
14. myfyrio ar eich hunaniaeth ddigidol mewn lleoliad gwaith ieuenctid
15. defnyddio technegau gwerthuso i fyfyrio ar effeithiolrwydd ymgymryd â gwaith ieuenctid digidol a gwella ymarfer
16. bodloni'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae digideiddio yn llywio cymdeithas, gan gynnwys ei effaith ar waith ieuenctid ac ar bobl ifanc ac ar eu cyfleoedd yn y dyfodol
2. anghenion nodweddiadol pobl ifanc, gan gynnwys eu diddordebau, dewisiadau, dyheadau, hobïau, arddulliau ac arferion ar-lein
3. diwylliannau digidol pobl ifanc, gan gynnwys sut mae pobl ifanc yn cyfathrebu mewn amgylcheddau digidol
4. sut i ategu nodau gwaith ieuenctid presennol gyda chymorth y cyfryngau digidol a thechnoleg
5. dulliau cynnwys pobl ifanc ym mhob cam o waith ieuenctid digidol, gan gynnwys gweithgareddau cymheiriaid, rhoi rolau cyfrifol i bobl ifanc, gwirfoddoli
6. y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid digidol a sut i'w goresgyn
7. y dyfeisiau a'r rhaglenni digidol sydd ar gael a sut i ddewis yr un mwyaf priodol ar gyfer eich gofynion
8. y cyfarpar sydd ar gael ar gyfer creadigrwydd digidol, gan gynnwys cyfarpar ffynhonnell agored a rhad ac am ddim
9. y mathau o broblemau y gall pobl ifanc eu hwynebu ar-lein, gan gynnwys sut i ymateb i iaith casineb, seiberfwlio a mathau eraill o ymddygiad digroeso ar-lein a rhoi gwybod i blatfformau ac i'r heddlu neu asiantaethau eraill
10. sut mae hawlfraint a thrwyddedau yn berthnasol i ddata, gwybodaeth a chynnwys digidol
11. y materion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â lanlwytho cynnwys digidol, gan gynnwys perchnogaeth data
12. lle mae angen gwella eich cymhwysedd digidol neu ei ddiweddaru
13. lle i ddod o hyd i gyfleoedd rhannu ymarfer a dysgu yn y maes hwn
14. y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith ieuenctid mewn perthynas â gofynion y safon hon

CLD YW08

Ymgysylltu â phobl ifanc a'u galluogi i ddefnyddio'r cyfryngau digidol yn eu bywydau bob dydd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | CLD Standards Council Scotland |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | CLD Standards Council Scotland |
| **RCU gwreiddiol** | AMH |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Ieuenctid |
| **Cyfres/Set** | Gwaith Ieuenctid |
| **Geiriau Allweddol** | Ieuenctid; pobl ifanc; perthnasoedd; digidol; cynnwys digidol ar-lein; ffiniau |